CYHOEDDIAD

# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru: Rhagfyr 2022

Diweddariad Rhagfyr 2022 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ynghylch ein datblygiadau diweddaraf, ymgynghoriadau a chynlluniau.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Rhagfyr 2022

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Rhagfyr 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Yr economi a'r farchnad lafur

Addysg

Tai

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Llesiant Cymru

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cyfiawnder cymdeithasol

Cydraddoldeb

Masnach

Trafnidiaeth

Y Gymraeg

Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Poblogaeth a demograffeg



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein **calendr i ddod**.

# Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein datganiad misol, **trosolwg o'r farchnad lafur**, sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur. Mae ein **dangosfwrdd Economi Cymru mewn Rhifau** wedi cael ei ddiweddaru hefyd.

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar **ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mehefin 2022** sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein datganiad ar **Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth** ar gyfer 2021, gan gyflwyno amcangyfrifon o gyflogeion a chyflogaeth, yn ogystal â chyhoeddi amcangyfrifon ar gyfer data **Incwm Aelwydydd I'w Wario Crynswth Rhanbarthol** ar gyfer 2020.

Cafodd y data diweddaraf o'r **Arolwg blynyddol o oriau ac enillion** eu cyhoeddi ym mis Hydref hefyd, gan roi gwybodaeth am enillion cyfartalog fesul awr, wythnos a blwyddyn ar gyfer 2022 a gwnaethom hefyd ddiweddaru ein datganiad ar **ddangosyddion allbynnau tymor-byr** i gwmpasu ail chwarter

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2022.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi **Cynnyrch domestig gros rhanbarthol o fis Ionawr i fis Mawrth 2022** yn ogystal â chyhoeddi gwybodaeth am **Ddemograffeg busnes** ar gyfer 2021. Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf o **gyfanswm y gwariant ar ymchwil a datblygu** mewn sectorau marchnad gwahanol ar gyfer 2020, yn ogystal ag amcangyfrifon o **wariant busnesau ar ymchwil a datblygu ar gyfer 2021**.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch **ystadegau.economi@llyw.cymru**.

## Tablau mewnbwn-allbwn

Mae ein prosiect i ddatblygu tablau mewnbwn-allbwn ar gyfer Cymru yn parhau. Mae tablau mewnbwn-allbwn yn darparu data manwl ar lifau economaidd yng Nghymru. Os hoffai unrhyw un sydd â diddordeb yn y prosiect hwn gael diweddariadau rheolaidd neu drafod sut y gallai fod o fudd i'ch gwaith, yna e-bostiwch **ystadegau.masnach@llyw.cymru**.

# Addysg

## Ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data wythnosol ar **bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir** drwy gydol tymor yr hydref a chafwyd y cyhoeddiad cyntaf ar 14 Medi.

Cyhoeddwyd y datganiadau ystadegol canlynol ers mis Medi:

- **Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2021 i Awst**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**2022** (8 Medi)

- **Cyflawniad academaidd disgyblion mewn asesiadau dechreuol ac yng Nghyfnod Allweddol 3: 2022** (28 Medi)
- **Canlyniadau arholiadau dros dro** (6 Hydref)
- **Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion** (20 Hydref)
- **Canlyniadau arholiadau terfynol** (6 Rhagfyr)

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn **ystadegau.ysgolion@llyw.cymru**.

## Addysg drawsbynciol ac ôl-16

Roedd mis Hydref yn fis prysur gyda nifer o gyhoeddiadau mewn meysydd gwahanol. Cyhoeddwyd ystadegau blynyddol ar **gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur**, ynghyd â'r bwletin ystadegol blynyddol ar **bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant**. Cyhoeddwyd yr allbynnau hyn yn hwyrach nag arfer ar ôl gwaith i ailbwysoli'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi'r set ddiweddaraf o ystadegau blynyddol ar gyfer y mesur perfformiad **cyrchfannau dysgwyr ôl-16**. Mae'r ystadegau hyn yn edrych ar ddysgwyr mewn addysg ôl-16 ym mlwyddyn academaidd 2019/20 a ph'un a oeddent mewn cyflogaeth a/neu gyrchfannau dysgu parhaus y flwyddyn ganlynol.

Cafodd y set gyntaf o brif ystadegau chwarterol ar raglen **Twf Swyddi Cymru+** ei chyhoeddi ym mis Hydref hefyd. Bydd datganiad ystadegol llawn, manylach ar gael pan gaiff data ar gyfer pedwerydd chwarter pob blwyddyn ariannol eu cyhoeddi. Cyhoeddwyd ystadegau ar y sector **gwaith ieuenctid** a gynhelir yng Nghymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 hefyd.

Yn olaf, mae ystadegau dros dro ar **raglenni dysgu prentisiaeth a**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**ddechreuwyd** ar gyfer trydydd chwarter blwyddyn academaidd 2021/22 wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar drwy ein dangosfwrdd rhyngweithiol a StatsCymru.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach, e-bostiwch **ystadegau.addysgol16@llyw.cymru**.

## Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Rydym wedi cyhoeddi ein datganiad blynyddol ar **Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru (addysg bellach)**.

Er mwyn rhoi adborth neu gael unrhyw wybodaeth bellach **addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru**.

# Tai

Mae gwybodaeth reoli fisol am **ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan** yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd. Ers mis Medi, mae'r allbynnau ystadegau tai rheolaidd canlynol wedi cael eu cyhoeddi:

- **Dangosydd Cenedlaethol 049: Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu fwy o'u hincwm ar gostau tai** ( 29 Medi 2022)
- **Adeiladu tai newydd: Ebrill 2021 i Mawrth 2022** (6 Hydref)
- **Cymorth i Brynu – Cymru (Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir): Ebrill i Mehefin 2022** (27 Hydref)
- **Stoc tai landlordiaid cymdeithasol a rhenti: ar 31 Mawrth 2022,** (3 Tachwedd)

Mae'r **Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi data misol ar**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Fynegai Prisiau Tai ar gyfer Cymru**, a chyhoeddwyd y diweddaraf o'r rhain (ar gyfer mis Awst 2022) ar 19 Hydref ochr yn ochr â **data ar gyfer gweddill y DU.**

Cysylltwch â ni drwy flwch post **ystadegau.tai@llyw.cymru** os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

## Cyflwr tai a thlodi tanwydd

- **Safonau Ansawdd Tai Cymru**: ar 31 Mawrth 2022 (10 Tachwedd)
- **Amcangyfrifon tlodi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru: ym mis Hydref 2021** (2 Tachwedd) Mae'r amcangyfrifon diweddaraf hyn yn cynnwys amcangyfrifon o dlodi tanwydd yn ôl deiliadaeth, cyfansoddiad aelwydydd, oedran a'r math o annedd.

Mae gennym ddau aelod newydd o staff sy'n gweithio i ddatblygu Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o ddata gweinyddol ar dai at ddibenion dadansoddi. Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar adnewyddu setiau data presennol a nodi a chaffael setiau data newydd. Mae gennym ddiddordeb hefyd mewn cynnal prosiectau arddangos i dynnu sylw at werth Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai. Os oes gennych gais y gallwn roi cymorth i chi yn ei gylch, cysylltwch â ni yn **ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru**.

Rydym hefyd yn datblygu dangosfwrdd data tlodi tanwydd a fydd yn cynnwys data o ffynonellau mewnol ac allanol gan gynnwys adrannau eraill y llywodraeth ac Ofgem. Bwriedir ei gyhoeddi yn ystod chwarter cyntaf 2023.

Dros y chwarter nesaf, byddwn yn ystyried opsiynau ar gyfer arolwg o gyflwr tai yn y dyfodol.

Cysylltwch â ni yn **ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru** os bydd gennych unrhyw ymholiadau, ceisiadau neu fewnbwn mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

## Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19)

Yn ystod mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd **Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: COVID-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig**. Mae'r ddogfen hon yn egluro bod y cysylltiad rhwng haint COVID-19, salwch difrifol, cyfnodau yn yr ysbyty, a marwolaethau wedi gwanhau'n sylweddol. Mae hyn yn golygu y gallwn symud y tu hwnt i'r ymateb brys. Yn unol â'r cynllun hwn, rydym wedi rhoi terfyn ar lawer o'n hallbynnau COVID-19 neu wedi dechrau eu cyhoeddi'n llai aml.

Rydym yn parhau i ddiweddaru rhai allbynnau allweddol er mwyn sicrhau bod data ar gael o hyd, gan gynnwys data ar y canlynol: **amcangyfrifon positifedd** a **gwrthgyrff** o arolwg heintiadau Coronafeirws, **derbyniadau a chyfnodau yn yr ysbyty**, **cartrefi gofal**, **absenoldeb staff y GIG a hunanynysu** a **thriniaethau yn ôl cyfrwng therapiwtig**.

Mae trosolwg llawn o ddangosyddion COVID-19 ar gael ar ein **tudalen ystadegau ac ymchwil cysylltiedig â coronafeirws (COVID-19)**. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dal i ddiweddaru cynnwys arall ar COVID-19 bob wythnos ar y **dangosfyrddau gwyliadwriaeth coronafeirws (COVID-19)**.

## Ystadegau ysbytai

Rydym yn parhau i wella ein diweddariadau misol ar **berfformiad a gweithgaredd y GIG** sy'n cynnwys data ar ofal heb ei drefnu a gofal wedi'i drefnu. Yn ystod y chwarter olaf rydym wedi cyhoeddi blog newydd gan y Prif Ystadegydd er mwyn helpu defnyddwyr i **ddeall cymariaethau o ystadegau perfformiad y GIG ar draws y DU**. Byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ledled y DU i nodi'n well wahaniaethau, lle maent yn bodoli, a rhoi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwybod amdanynt a helpu defnyddwyr i lunio cymariaethau ystyrlon.

Gwnaethom barhau i adrodd ar

- wybodaeth reoli newydd ynghylch nifer y cleifion unigol ar restrau aros am driniaeth, yn ogystal â nifer y llwybrau cleifion, a
- pherfformiad yn erbyn nifer o uchelgeisiau allweddol yng ngoleuni'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar weithgaredd a pherfformiad y GIG **a nodwyd gan Lywodraeth Cymru** i leihau amseroedd aros.

Cyhoeddwyd diweddariad i nifer **gwelyau'r GIG** hefyd.

## Gofal sylfaenol a chymunedol

Rydym yn parhau i ychwanegu gwybodaeth ychwanegol at lawer o'n hallbynnau, gan gynnwys y chwarter hwn ar **bresgripsiynau** gyda dadansoddiad newydd fesul cwintel amddifadedd yn seiliedig ar ein herthygl flaenorol ar **Boblogaeth a gweithlu clwstwr practisau cyffredinol a gofal sylfaenol yn ôl amddifadedd.** Mae adroddiadau blynyddol wedi'u diweddaru ar gael hefyd ar gyfer **gwasanaethau deintyddol y GIG**, **gwasanaethau fferyllol cymunedol** a **Dechrau'n Deg** yn ogystal â diweddariadau chwarterol ar y **gweithlu practis cyffredinol**, **Rhaglen Plant Iach Cymru**, **bwydo ar y fron** a **chamddefnyddio sylweddau** (a gyhoeddir bellach gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru).

## Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Y chwarter hwn, cafwyd diweddariad i bennod Cymru iachach yn **adroddiad Llesiant Cymru 2022 a'r is-adroddiad cysylltiedig ar lesiant plant a phobl ifanc**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyhoeddwyd data newydd o Arolwg Cenedlaethol Cymru ynghylch **pa mor hawdd neu anodd yw hi i drefnu apwyntiad â meddyg teulu, yn ogystal â bodlonrwydd â'r gofal a dderbynnir yn ystod apwyntiadau â meddygon teulu ac apwyntiadau ysbyty**.

Y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau i amrywiaeth o ystadegau iechyd meddwl, gan gynnwys: **Derbyn cleifion i gyfleusterau iechyd meddwl, nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 a 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl**, **atgyfeiriadau ac amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl** ac **amseroedd aros am apwyntiad cyntaf gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed arbenigol**.

Yn ogystal, cafwyd amrywiaeth o ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys: **Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, absenoldeb oherwydd salwch yn y GIG**, **staff a gyflogir gan y GIG**, **mesurau gofal llygaid**, **gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu**.

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y **wefan Ystadegau ac ymchwil** ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn ardal iechyd a gofal cymdeithasol **StatsCymru**

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch **ysatadegau.iechyd@llyw.cymru**.

## Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Y chwarter hwn, gwnaethom gyfrannu at **adroddiad blynyddol 2021-22 ADR UK**. Tynnwyd sylw at gerrig milltir allweddol a gyflawnwyd gan YDG Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â gwaith ehangach ADR UK.

Roedd yn bleser gan YDG Cymru lansio ein rhaglen arfaethedig ar gyfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2022-2026 ar 1 Rhagfyr 2022 mewn digwyddiad yn y Senedd. Mae ein cynllun yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein **strategaeth** a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Diolch i gydweithio agos â thimau polisi o fewn y llywodraeth, mae ein rhaglen waith ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn anelu'n uniongyrchol at ddiwallu anghenion o ran tystiolaeth ar gyfer polisi ym meysydd addysg, y blynyddoedd cynnar, sgiliau a chyflogadwyedd, iechyd meddwl, llesiant, tai a digartrefedd, gofal cymdeithasol, newid yn yr hinsawdd a chyfiawnder cymdeithasol. O ganlyniad, rydym yn hyderus bod gofynion y tîm ymchwil a thimau polisi yn cael eu bodloni gan yr holl waith ymchwil a wneir a bod cyfle sylweddol i gael effaith.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch **adruwales@llyw.cymru**.

## Llesiant Cymru

Gwnaethom gyhoeddi adroddiad blynyddol diweddaraf **Llesiant Cymru** ar ddiwedd mis Medi. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad “cyflwr y genedl” o gynnydd tuag at y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gallwch hefyd weld data ar gyfer pob un o'r dangosyddion llesiant cenedlaethol drwy ddefnyddio'r **dangosfwrdd rhyngweithiol**.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn **prosiectaublaenoriaethuchel.ystadegau@llyw.cymru**.

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cysylltwch â ni yn **arolygon@llyw.cymru** os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Arolwg Cenedlaethol 2023-24 ymlaen

Mae'r contract presennol i gynnal yr Arolwg Cenedlaethol, a ddelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, yn dod i ben â'r gwaith maes diwedd 2022-23 ym mis Mawrth 2023.

Yn dilyn proses gaffael agored, rydym bellach wedi penodi Kantar i gynnal yr arolwg yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd gwaith maes yn 2023-24. Y flwyddyn gwaith maes gyntaf o dan y contract newydd fydd 2024-25.

Yn seiliedig ar wybodaeth a nodwyd yn ystod y broses gaffael, mae angen amser ychwanegol ar y contractwr newydd i sefydlu a phrofi trefniadau i gynnal yr arolwg, sy'n golygu na fydd yn bosibl dechrau'r gwaith maes ym mis Ebrill 2023. Gwnaethom ystyried cael gwaith maes ar gyfer rhan o 2023-24 yn unig ond daethom i'r casgliad na fyddai hynny'n diwallu anghenion defnyddwyr am ddata.

Caiff y canlyniadau blwyddyn gyfan nesaf eu cyhoeddi yn ôl y bwriad ym mis Gorffennaf 2023 (yn seiliedig ar waith maes 2022-23), ni fydd canlyniadau ym mis Gorffennaf 2024, ac yna caiff canlyniadau blwyddyn gyfan eu cyhoeddi eto ym mis Gorffennaf 2025, yn seiliedig ar waith maes 2024-25.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm yr Arolwg Cenedlaethol yn **arolygon@llyw.cymru**.

## Cyhoeddiadau

Yn dilyn y **Datganiad Cyntaf** o ganlyniadau 2021-22 ym mis Gorffennaf, rydym nawr wedi cyhoeddi'r bwletin ystadegol pwnc-benodol manwl cyntaf gan ddefnyddio'r canlyniadau hyn. Mae bwletin **gwasanaethau ysbyty a meddygon teulu** yn edrych ar ddefnydd pobl o feddygfeydd a gwasanaethau ysbytai a'u

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

bodlonrwydd â'r gwasanaethau hynny.

Holwyd pobl ynghylch pa mor hawdd oedd hi i gael apwyntiad ac amlder apwyntiadau; p'un a oeddent wedi gweld meddyg teulu neu weithiwr iechyd proffesiynol arall; p'un ai apwyntiad claf allanol neu apwyntiad claf mewnol a oedd ganddynt yn yr ysbyty; a pha mor fodlon oeddent ar y gofal a dderbyniwyd.

# Cyfiawnder cymdeithasol

Am ragor o wybodaeth am yr amrywiaeth eang o ystadegau cysylltiedig â thlodi sydd ar gael, ewch i'r **dudalen sy'n cynnwys ein casgliad o ystadegau cysylltiedig â thlodi**.

## Costau byw

Fel y nodwyd uchod, rydym wedi cyhoeddi **dadansoddiad manylach o dlodi tanwydd** ac rydym yn gweithio i ddatblygu dangosfwrdd tlodi tanwydd. Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi'r diweddariad misol cyntaf o **ddata StatsCymru** ar Daliadau Cymorth mewn Argyfwng a wnaed o'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn rhoi gwybodaeth amserol am yr argyfwng costau byw.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi dechrau cyhoeddi **dangosfwrdd data sy'n benodol i Gymru** sy'n rhoi gwybodaeth am y modd y mae'r argyfwng yn effeithio ar ei gleientiaid.

Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn **blog a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr**.Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** i danysgrifio. Gallwn hefyd ddarparu **sesiynau gwybodaeth ynglyn â MALIC 2019**. Os hoffech drefnu sesiwn o'r fath ar eich cyfer chi, eich sefydliad neu'ch rhwydwaith, cysylltwch â ni yn **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** i drafod hyn.

## Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin

Rydym yn parhau i weithio gyda SYG, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Cyhoeddodd **SYG ganlyniadau o ail don yr Arolwg o Ymateb Dyngarol y DU** ddydd Mawrth 22 Tachwedd. Fel rhan o'r arolwg hwn, ddiwedd mis Hydref a dechrau mis Tachwedd, cynhaliwyd cyfweliadau ag oedolion o Wcráin a oedd eisoes wedi cymryd rhan mewn **arolwg cynharach**.

Yn ogystal, ddydd Iau 24 Tachwedd, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref yr **ystadegau demograffig** diweddaraf. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad demograffig o'r rhai sydd wedi gwneud cais am fisa neu wedi derbyn fisa, neu sydd wedi cyrraedd y DU â noddwyr yng Nghymru.

Mae'r **ystadegau wythnosol ar nifer y ceisiadau am fisâu, nifer y fisâu a roddir a nifer y bobl sy'n cyrraedd y DU sydd â noddwyr yng Nghymru**, yn parhau i gael eu diweddaru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Diogelwch cymunedol

Mae'r hydref wedi bod yn gyfnod prysur o ran diweddariadau data mewn perthynas â thân ac achub, gyda chyhoeddiadau newydd ar gyfer:

- **Ystadegau Achosion Tân ac Achub, 2021-22** (28 Medi)
- **Ystadegau Gweithredol Awdurdodau Tân ac Achub, 2021-22** (28 Medi)
- **Perfformiad Awdurdodau Tân ac Achub, 2021-22** (28 Medi)
- **Tanau glaswelltir: Ebrill 2021 i Fawrth 2022** (26 Hydref)
- **Tanau llosgi bwriadol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022** (30 Tachwedd)

E-bostiwch **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** am ragor o wybodaeth.

# Cydraddoldeb

Ddydd Mawrth 29 Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi **Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd: Cyfrifiad 2021**. Mae'r crynodeb pwnc hwn yn rhoi trosolwg o'r pedwar pwnc hwn gan ddefnyddio data o Gyfrifiad 2021, gan gynnwys grwpiau ethnig (categorïau lefel uchel a manwl), hunaniaeth genedlaethol neu hunaniaethau cenedlaethol, prif iaith, hyfedredd yn y Saesneg ymhlith y rhai nad ydynt yn siarad Saesneg na Chymraeg fel prif iaith, a chrefydd. Caiff y data hyn eu dadansoddi ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol, ac maent yn cynnwys data ar grwpiau ethnig, prif ieithoedd, a chrefydd ar gyfer aelwydydd.

Dylid nodi, er bod y bwletin hwn yn cynnwys data ar brif ieithoedd, nad yw'n cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o'r Gymraeg. Cafodd **bwletin ar wahân ar y Gymraeg** ei gyhoeddi ar 6 Rhagfyr 2022.

Yn ogystal, ddydd Mawrth 29 Tachwedd, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Gwladol (SYG) ddata o Gyfrifiad 2021 ar ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd unigolion ac aelwydydd yng Nghymru a Lloegr mewn pedwar bwletin gwahanol:

- **Grŵp ethnig, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021**
- **Hunaniaeth genedlaethol, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021**
- **Iaith, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021**
- **Crefydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021**

Yn dilyn gwaith ailbwysoli newidynnau gan SYG, rydym wedi diweddaru ein hamcangyfrifon chwarterol ar gyfer **ethnigrwydd** a **hunaniaeth genedlaethol** gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ddydd Iau 10 Tachwedd 2022, sy'n golygu bod yr amcangyfrifon hyn yn berthnasol hyd at fis Mehefin 2022. Dylid nodi bod y data arolwg hyn yn golygu y gellir llunio amcangyfrifon mwy amserol o gymharu â'r Cyfrifiad, ond mae'r amcangyfrifon yn llai cadarn a manwl am eu bod yn seiliedig ar arolwg.

Caiff mwy o allbynnau cydraddoldeb y Cyfrifiad eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Gofynnwyd cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2021, a byddwn yn cyhoeddi ein crynodeb pwnc ar y data hyn ar 6 Ionawr 2023.

## Unedau tystiolaeth cydraddoldeb, hil ac anabledd

Cyhoeddodd yr Unedau **strategaeth Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd** ym mis Hydref 2022 ar ôl cael cymeradwyaeth y Cabinet ar 12 Medi. Mae'r strategaeth a'r **blaenoriaethau** cysylltiedig sy'n dod i'r amlwg yn disgrifio cwmpas yr Unedau a'r prosiectau cychwynnol a gynhelir.

Cafodd blaenoriaethau ymchwil cychwynnol ar gyfer pob Uned eu datblygu â rhanddeiliaid yn seiliedig ar ymrwymiadau a wnaed yn barod a gofynion sy'n dod i'r amlwg o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Hyrwyddo Cydraddoldeb

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

rhwng y Rhywiau, y Cynllun Gweithredu LHDTC+, y Tasglu Hawliau Pobl Anabl, y Tasglu Data Cynhwysol a chynlluniau a strategaethau eraill Llywodraeth Cymru.

Rydym wedi bod yn ystyried sut a phryd y gallwn ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu drwy gydol y cylch tystiolaeth. Rydym wrthi'n ystyried sut y gallwn oresgyn rhwystrau penodol wrth fabwysiadu'r dull hwn o weithio.

Rydym hefyd yn gweithio ar y tasgau canlynol:

- archwiliad o dystiolaeth a fydd yn ein helpu i ddeall yr wybodaeth sydd ar gael, y bylchau a'r anghysondebau y mae angen mynd i'r afael â nhw.
- gweithio gyda Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol er mwyn helpu i ddatblygu nodau, camau gweithredu a mesurau.
- comisiynu gwaith er mwyn helpu i ddeall sut y gallwn gasglu tystiolaeth yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd.
- datblygu arolwg o ddata cydraddoldeb i gyrff y sector cyhoeddus.
- gweithio'n agos gyda'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl a thîm y Cynllun Gweithredu LHDTC+ i ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu gwaith.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
**yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru**.

# Masnach

## Arolwg Masnach Cymru

Mae canfyddiadau trydydd Arolwg Masnach Cymru, blwyddyn gyfeirio 2020, yn cael eu dadansoddi o hyd. Mae'r dyddiad cyhoeddi disgwyliedig gwreiddiol, sef mis Mai 2022, wedi cael ei ohirio tan 2023 am fod angen cynnal rhagor o wiriadau ansawdd a chyflwyno prosesau priodoli newydd i'r fethodoleg gan fod

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwerth sawl blwyddyn o ddata wedi cael eu casglu erbyn hyn.

Cafodd y gwaith maes ar gyfer pedwaredd flwyddyn yr arolwg ei lansio ym mis Medi a bydd yn dod i ben ganol mis Rhagfyr, gan gasglu data 2021.

Ar hyn o bryd, mae IFF Research dan gontract i gyflawni blwyddyn arall o'r arolwg ac mae bwrdd y prosiect yn ystyried opsiynau i'w gyflawni yn 2023 a 2024.

Mae'r tîm dadansoddi wedi goruchwylio dau brosiect ymchwil ag ymatebwyr Arolwg Masnach Cymru a gytunodd i gymryd rhan mewn gweithgarwch dilynol ynghylch Gwasanaethau Modd 5 ('sofieteiddio') a Rheolau Tarddiad. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar Wasanaethau Modd 5 ym mis Tachwedd: **Gwasanaethau Modd 5: ymchwil archwiliadol â busnesau a chyrff masnach**. Disgwylir i'r adroddiad ar Reolau Tarddiad gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023.

## Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Cafodd y prif ganlyniadau o Ystadegau Masnach Rhanbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2022 eu cyhoeddi ym mis Hydref 2022: **Masnach nwyddau rhyngwladol Cymru: Gorffennaf 2021 i Fehefin 2022**.

Ochr yn ochr â'r prif ganlyniad uchod, mae'r **dangosfwrdd masnach rhyngweithiol** wedi cael ei ddiweddaru hefyd:

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: **ystadegau.masnach@llyw.cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Trafnidiaeth

Ym mis Medi, gwnaethom ddiweddaru ein datganiad blynyddol ar **hyd a chyflwr ffyrdd** rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022, gan gyflwyno gwybodaeth yn ôl dosbarth ffordd.

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi ystod o wybodaeth a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru am lefelau teithio llesol pobl rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 yn ein datganiad **Teithio llesol (cerdded a beicio)**.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi'r data diweddaraf ar lefelau traffig yn ôl y math o gerbyd a dosbarth ffordd ar gyfer 2021 yn ein datganiad ystadegol **Traffig Ffyrdd**, a ddangosodd fod cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws (COVID-19) wedi parhau i effeithio ar deithio yn 2021, ond i raddau llai.

Yn ddiweddar, rydym hefyd wedi diweddaru ein **dangosfwrdd rhyngweithiol** ynghylch damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu ar gyfer ail chwarter 2022 (mis Ebrill i fis Mehefin 2022). Mae hwn yn cynnwys nifer o ddadansoddiadau gan gynnwys difrifoldeb yr anaf a'r math o ddefnyddiwr ffordd.

I roi adborth ac i wneud sylwadau, cysylltwch ag **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru**.

# Y Gymraeg

## Cyfrifiad 2021

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut mae Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd tuag at wireddu eu huchelgais o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

2050.

Gan weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), gwnaethom gyhoeddi'r **data cyntaf o'r cyfrifiad ar y Gymraeg** ar 6 Rhagfyr.

Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am nifer a chanran y boblogaeth tair oed neu hŷn yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg (yn ogystal â sgiliau Cymraeg eraill) ar lefel Cymru, awdurdodau lleol ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is. Cafodd datganiad ystadegol a thablau Excel cysylltiedig sy'n crynhoi'r data eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Cafodd y **data diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth** eu cyhoeddi ar 25 Hydref.

Caiff y diweddariad nesaf, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Medi, ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Dylid nodi mai'r cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut y byddwn yn mesur cynnydd tuag at wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Arolwg Defnydd Iaith

Cafodd bwletin ystadegol ar y **defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg** ei gyhoeddi ar 17 Tachwedd, y diweddaraf yn y gyfres sy'n defnyddio data o Arolwg Defnydd Iaith 2019-20. Mae'r dadansoddiad hwn yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned, gan gynnwys y defnydd a wneir o'r iaith mewn sefyllfaoedd a grwpiau cymdeithasol gwahanol. Mae'r erthyglau blaenorol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae'r rhain yn edrych ar y **canlyniadau cychwynnol** a'r **Gymraeg yn y cartref ac mewn addysg**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi gweddill canfyddiadau'r arolwg mewn bwletinau ystadegol ar wahân, yn ôl thema, gan gyfuno data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 lle bo hynny'n berthnasol. Byddwn yn mynd ati i gyhoeddi'r ddau fwletin nesaf yn y gyfres cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn newydd.

- Cymraeg yn y gweithle
- Defnydd o'r Gymraeg gyda gwasanaethau

E-bostiwch **datalaithgymraeg@llyw.cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

# Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Cyhoeddwyd yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer **tir amaethyddol a da byw** fel yr oeddent ym mis Mehefin 2022. Mae disgwyl i'r amcangyfrifon cyllid fferm diweddaraf o'r Arolwg o Fusnesau Ffermio gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2023.

Cafodd yr ystadegau blynyddol diweddaraf ar **gasglu ac ailgylchu gwastraff trefol** eu cyhoeddi ym mis Tachwedd.

E-bostiwch **ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru** i gael rhagor o wybodaeth.

# Poblogaeth a demograffeg

Cyhoeddir **diweddariad demograffeg chwarterol** ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch **Ystadegau.Poblogaeth@llyw.cymru**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

## Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: **desg.ystadegau@llyw.cymru**

## Pwnc-benodol

**Cysylltiadau ar gyfer ystadegau**

## Twitter

**YstadegauCymru**

## Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

**Newyddion a hysbysiadau**

## Ymholiadau gweinyddol

E-bost **kasadmin@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2022-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.